*Penillion a ysgrifennwyd gan Blodwen Morris pan gafodd cangen Croesoswallt wahoddiad i ymuno â changen Llanwddy rhywbryd yn yr wythdegau.*

**1.**
**O Groesoswallt i Lanwddyn**
**Ar eich cais caredig daethom**
**Ceisiwn yma eich diddori**
**Adrodd, canu, cwis sydd gennym.**

**2.**
**Dyma ni yn gwmni rhadlon**
**Ein haelodau sydd yn ffyddlon**
**Wedi bod yn brysur, brysur**
**Yn par'toi ryw raglen ddifyr.**

**Cytgan**
**O mor llon yr ydym ni**
**O mor llon yr ydym ni**
**Wedi dod i'r neuadd yma**
**A chael croeso gennych chi.**

**3.**
**Yma gwelwn yn Llanwddyn**
**Heulwen, llywydd sy o ddifri**
**Gyda Jane yr ysgrifennydd**
**Ac Ella'n siwr wrth gadw cyfri.**

**4.**
**Aethoch ffwrdd i Lyn Clywedog-**
**Gwmni hapus o Lanwddyn**
**Wedi'r daith dros ffyrdd anghysbell**
**Gwledda wedyn yn 'Y Dyffryn'.**

**5.**
**Buom ni a chwithau'n brysur**
**Yn gwau sgwariau i'r anghenus**
**Gwau dros gant a wnaeth eich Gwenfron**
**Rhaid fod ganddi fysedd nwyfus.**

**6.**
**Mae eich cangen yma'n weithgar**
**'n codi arian at achosion**
**Trwy gael chwist a Noson Goffi**
**I roi help i'r anffodusion.**

**7.**
**Beth yw pwrpas mawr ein mudiad?**
**Cadw'r iaith o hyd i ffynnu**
**Gwyddom fod y gangen yma'n**
**Gwneud eu gorau i wneud hynny.**

**8.**
**Gwyddom nad gwaith hawdd yw hynny**
**Pan fo llawer o ddieithriaid**
**Yn dod mewn ac yna'n llygru**
**Iaith a thraddodiadau Cymru.**

**9.**
**Rhaid yn awr roi terfyn arni**
**Rhag eich bod yn wir ddiflasu.**
**'Nawr cewch wybod pwy fydd nesa'i**
**Ddod o'ch blaen nawr i'ch diddori.**

***Penillion a ysgrifennwyd gan Blodwen Morris pan gafodd cangen Croesoswallt wahoddiad i ymuno â changen Rhiwlas rhywbryd yn yr wythdegau.***

***Alaw 'Y Mochyn Du'***

**1.**
**Diolch wnawn i ferched Rhiwlas**
**Am roi hoe i'n bywyd diflas;**
**Tra yn byw ymysg y Saeson**
**Cadw'r iaith sy'n broblem gyson.**

**2.**
**Daethom yma drwy Gefn Canol**
**Lle mae ambell Sais hunanol;**
**'Does ond Siwsi fach Bronwylfa**
**Yn Gymraes i'r carn mi gredaf.**

**Cytgan**
**O mor llon yr ydym ni**
**O mor llon yr ydym ni**
**Y mae croeso cynnes yma**
**Fel yn donic da i ni.**

**3.**
**Y mae Rhiwlas yn nodedig**
**Am ddiwylliant sy'n arbennig;**
**Beirdd Nantganol yn disgleirio**
**Mewn ymryson, heb ddiffygio.**

**4.**
**Yno hefyd mae Rowena,**
**Nid yw'n enwog am fusnesa;**
**Ond os blasus fydd rhyw glebran,**
**I'r hen '*Ysgyb'* aiff y cyfan.**

**5.**
**Nid yw Sally Jones Brynhafod**
**Hyd yn hyn yn ddynes briod;**
**Ond hen flaenor – dyna'r siarad-**
**O Groesoswallt, yw ei chariad**

**6.**
**Pan ddaw diwrnod mawr y priodi,**
**Taflwch reis ac nid confetti,**
**Bydd y tlodion ar eu deulin**
**Yn ei gasglu i wneud pwdin.**

**7.**
**Bob mis Mai heb unwaith fethu**
**Cedwir yma Ŵyl Bregethu;**
**Os rhowch i ni wely heno**
**Deuwn atoch i gyd wrando.**

**8.**
**Nid yw bod yn aelod yma**
**Yn golygu merched tila,**
**Pe bai cystadleuaeth pwysau –**
**O bob adran dyma'r orau.**

***Cangen Croesoswallt***

***Penillion a ysgrifennwyd gan Blodwen Morris i gyfarch Jane Roberts , un o aelodau'r gangen, a fu'n dangos ei chrefftau yn un o'n cyfarfodydd.***

**Yn gyson cyfarfyddwn**
**Ni Ferched glân y Wawr**
**Ar ail nos Iau yn fisol**
**Cawn fwyniant am ddwy awr,**
**Y noson hon daeth atom**
**Gymraes a'i henw Jane**
**Un sydd yn wir amryddawn**
**A hefyd yn un glên.**

**Y mae yn hynod ddiwyd**
**Ar greu y mae ei bryd**
**Gwau, gwnïo ac arlunio**
**Mae ei dwylo hi o hyd,**
**Cogyddes, ysgolfeistres**
**Heb os mae ar y blaen,**
**Popeth ymafla ynddo**
**Mae'n gwneuthur gyda graen.**

**Pan fydd yr haul yn gwenu**
**Mae'n brysur yn yr ardd**
**A'r blodau mae'n eu plannu**
**Sydd liwgar ac yn hardd,**
**Braint yw cael adnabod**
**Y wraig ddelfrydol glên**
**A thalwn ein gwrogaeth**
**Diolch mawr i Jane.**

**Blodwen Morris**